# LWFANS MYFYRWYR ANABL CMC

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

**Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru (CMC) yn ymwneud â myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n astudio cyrsiau addysg uwch mewn prifysgolion neu golegau yn y DU**

Mae cymorth Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA) ar gael i dalu am unrhyw gostau ychwanegol cysylltiedig ag astudio a allai fod gennych oherwydd cyflwr iechyd meddwl, salwch hirdymor neu unrhyw anabledd arall.

Gall hyn fod ar ei ben ei hun neu yn ychwanegol at unrhyw gyllid myfyriwr a gewch.

Mae'r math o gymorth a faint a gewch yn dibynnu ar eich anghenion unigol - nid incwm eich cartref.

Nid oes angen ad-dalu Lwfans i Fyfyrwyr Anabl.


## Beth all y DSA dalu amdano:

Gallwch gael help gyda chostau:

- offer arbenigol, er enghraifft cyfrifiadur os ydych chi angen un oherwydd eich anabledd.
- helpwyr anfeddygol, er enghraifft dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu arbenigwr i gymryd nodiadau.
- teithio ychwanegol, i fynychu eich cwrs neu leoliad, oherwydd eich anabledd.
- cefnogaeth astudio arall cysylltiedig i anabledd, er enghraifft gorfod argraffu copïau ychwanegol o ddogfennau ar gyfer prawfddarllen.

Nid yw DSA yn talu costau cysylltiedig ag anabledd a fyddai gennych pe na baech yn mynychu cwrs, neu gostau y gallai fod gan unrhyw fyfyriwr.

**Proses Ymgeisio Lwfans Myfyrwyr Anabl**




**1. YMGEISIO**

Gwnewch gais ar-lein ar yr un pryd ag y byddwch yn /wedi gwneud cais am gymorth craidd. Bydd angen i chi wneud cais drwy'r ffurflen bapur os:

- Nad ydych yn ymgeisio am gefnogaeth craidd
- Rydych chi'n fyfyriwr Rhan-amser
- Rydych chi'n fyfyriwr Ôl-raddedig

**2. TYSTIOLAETH ANABLEDD**

Cyflenwch eich Tystiolaeth Anabledd mewn un o'r tri fformat hyn:

- Adroddiad Diagnostig (anawsterau dysgu)
- Llythyr gan Feddyg Teulu neu Weithiwr Meddygol Proffesiynol arall
- Ffurflen Tystiolaeth Anabledd SFW

**3. LLYTHYR DSA1**

Bydd SLC yn anfon llythyr DSA1 atoch, yn cadarnhau eich bod yn gymwys ar gyfer DSA ac yn cadarnhau eich cyflenwr a fydd yn helpu trefnu eich asesiad anghenion

**4. ASESIAD O ANGHENION**

Nid yw'r asesiad yn brawf o unrhyw fath, ond yn gyfle i drafod yr opsiynau cymorth mwyaf priodol i chi. Gall yr asesiad gymryd hyd at ddwy awr a gallwch ddewis cael yr asesiad anghenion yn bersonol neu ar-lein, trwy alwad fideo

**5. LLYTHYR DSA2**

Mae'r llythyr hwn yn cadarnhau eich pecyn cymorth a chyfarwyddiadau ar gyfer archebu offer arbenigol / trefnu cymorth arall

**6. TALIAD**

Mae cyflenwyr yn anfonebu'r Tîm DSA yn uniongyrchol am y cymorth y maent wedi'i ddarparu. Mae rhai myfyrwyr hefyd yn cael cytundeb ar gyfer Lwfans Cyffredinol a gallant anfon derbynebau (hawliadau myfyrwyr) i hawlio'r costau hyn yn ôl

## Eich ‘asesiad o anghenion’:

Unwaith y bydd eich cymhwysedd ar gyfer DSA wedi'i gadarnhau (drwy'r llythyr DSA1), bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cadarnhau eich cyflenwr (naill ai Study Tech neu Capita). Bydd eich cyflenwr yn helpu trefnu eich asesiad anghenion.

Telir am yr asesiad drwy unrhyw hawl DSA a allai fod gennych.

Ar ôl yr asesiad, byddwch yn cael adroddiad yn rhestru offer a chymorth arall y gallwch ei gael ar gyfer eich cwrs.

Peidiwch â phrynu unrhyw offer nes i chi gael eich asesu - ni chewch ad-daliad amdano.

Mae rhagor o wybodaeth am yr asesiad anghenion ar gael ar gov.uk: [www.gov.uk/guidance/what-to-expect-from-your-disabled-students-allowance-dsa-needs-assessment](https://www.gov.uk/guidance/what-to-expect-from-your-disabled-students-allowance-dsa-needs-assessment)

## Sut mae DSA yn cael ei dalu:

Yn gyffredinol, bydd DSA yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r sefydliad sy'n darparu'r gwasanaeth / offer.

Byddwch yn darganfod sut bydd eich cymorth yn cael ei dalu i chi ar ôl eich asesiad o anghenion.

## Sut mae gwneud cais:

Mae sut rydych yn gwneud cais am Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA) yn dibynnu ar p'un a ydych yn astudio'n amser llawn neu'n rhan-amser.

**Myfyrwyr israddedig amser llawn**

Os ydych chi eisoes wedi gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr, mewngofnodwch i'ch cyfrif cyllid myfyrwyr i gychwyn eich cais DSA.

Dylai'r cais am DSA fod ar eich 'rhestr dasgau' os dewisoch DSA yn eich cais am gymorth arall. Os nad yw, dewiswch 'newid eich amgylchiadau' i wneud cais.

Os nad ydych wedi gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr, gallwch wneud cais am DSA pan fyddwch yn gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr ar-lein: https://logon.slc.co.uk/welcome/secured/login

Os nad oes gennych gyfrif ar-lein oherwydd eich bod wedi gwneud cais am gyllid i fyfyrwyr drwy'r post, llenwch ffurflen cyllid myfyrwyr (ffurflen fain DSA).

Os nad oes angen cyllid myfyrwyr arnoch, gallwch lenwi ffurflen DSA1 i wneud cais am DSA yn unig.

Ni allwch wneud cais am gyllid i fyfyrwyr ar-lein unwaith y byddwch wedi gwneud cais am DSA.

**Myfyrwyr rhan-amser ac ôl-raddedig**

Llenwch ffurflen cyllid myfyrwyr (ffurflen DSA1) i wneud cais am DSA.

**Os ydych chi eisoes yn cael DSA**

Llenwch ffurflen cyllid myfyriwr (ffurflen hawlio costau DSA) i hawlio eich treuliau yn ôl.

## Ffurflenni:

Mae ffurflenni ar gael yma: https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/cyllid-israddedig/israddedig-llawn-amser/ffioedd-dysgu-a-chostau-byw/beth-sydd-ar-gael/lwfans-myfyrwyr-anabl/

## Pa mor hir mae'n ei gymryd:

Gall gymryd hyd at 14 wythnos i gael eich cefnogaeth DSA yn ei le gan fod hyn yn cael ei wneud ar wahân.

## Rhagor o Wybodaeth:

I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys faint o DSA sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn academaidd, gweler: https://www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/cyllid-israddedig/israddedig-llawn-amser/ffioedd-dysgu-a-chostau-byw/beth-sydd-ar-gael/lwfans-myfyrwyr-anabl/

## Cysylltwch â Cyllid Myfyrwyr Cymru:

Llinell gymorth Myfyrwyr ac Ymarferwyr Cyllid Myfyrwyr Cymru: 0300 200 4050

## Sut i wneud cwyn:

Gallwch wneud cwyn dros y ffôn, e-bost neu'r post:

Cyllid Myfyrwyr Cymru**:** 0300 200 4050

Mae rhagor o wybodaeth am gwynion ar gael ar gov.uk: www.gov.uk/government/organisations/student-loans-company/about/complaints-procedure